# Seicoleg



"Am bwnc hwyl i'w astudio! Mae dysgu am sut y daethom i fod yn pwy ydym ni a sut y gwnaethom esblygu fel pobl mor ddiddorol. Yn lle dysgu ffeithiau yn unig, gallwch gymhwyso'ch dysgu atoch chi'ch hun, ffrindiau a theulu mewn ffordd trosglwyddadwy go iawn, gan wneud y pwnc mor wahanol i'r mwyafrif o rai eraill."
**Alexandra Sidley-Brooks**

"Mae seicoleg wedi rhoi rhagolwg newydd imi ar waith mewnol y meddwl dynol ac ar y gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i wella ansawdd bywyd cleifion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a niwed i'r ymennydd."
**George Yarldey**

"Mae astudio Seicoleg fel Safon Uwch wedi fy helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy fel meddwl beirniadol ac ysgrifennu traethodau yn effeithiol sydd wedi fy nghynorthwyo yn fy mhynciau eraill. Mae hefyd wedi fy ysbrydoli i barhau i astudio Seicoleg ar flwyddyn nesaf."
**Elin Menai Thurlow**



## Pam astudio Seicoleg?

Mae Seicoleg yn bwnc amrywiol a diddorol dros ben sy'n mynd i'r afael â thestun y meddwl ac ymddygiad pobl drwy ddefnyddio dulliau ymchwil gwyddonol. Mae seicolegwyr yn ceisio deall beth sy'n ein cymell, beth sy'n ein herio neu beth sy'n ein newid er mwyn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i'n helpu i ymdrin â phroblemau personol a chymdeithasol. Bydd astudio Seicoleg yn datblygu eich profiad a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth wyddonol, eich sgiliau mathemategol a'ch sgiliau ymchwil, eich gwybodaeth hanesyddol a'ch sgiliau ysgrifennu traethawd, felly mae'n cyd-fynd yn dda â nifer fawr o bynciau eraill. Byddwch yn dysgu sgiliau amrywiol gan gynnwys meddwl yn ddadansoddol, gwella eich dulliau cyfathrebu, datrys problemau a llawer iawn mwy. Bydd hyn yn eich paratoi ar gyfer dyfodol cyffrous gyda'r posibilrwydd o ddilyn gyrfa ardderchog mewn sawl maes.

## Gofynion y cwrs

Bydd TGAU gradd B mewn Cymraeg, Gwyddoniaeth a Mathemateg yn sicrhau lle i chi ar y cwrs hwn. Mae'n bosibl y gellir derbyn graddau C yn y pynciau hyn yn dilyn sgwrs gyda'r Pennaeth Seicoleg a Phennaeth y Chweched.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

**UG** (2 uned)
**Uned 1 Seicoleg: O'r Gorffennol i'r Presennol**
Arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud: 20% o'r cymhwyster
Cwestiynau gorfodol yn ymwneud â phum ymagwedd seicolegol a darnau clasurol o ymchwil.
**Uned 2 Defnyddio Cysyniadau Seicolegol**
**Adran A:** Dadleuon cyfoes. Un cwestiwn sy'n ymwneud â'r dadleuon a roddwyd.
**Adran B**: Egwyddorion ymchwil a chymhwyso dulliau ymchwil.

Cwestiynau gorfodol ar ddamcaniaeth ymchwil seicolegol (gan gynnwys gwaith seicolegwyr cymdeithasol a datblygiadol). Cymhwyso dulliau ymchwil at senario newydd. Cwestiynau gorfodol yn gofyn am ymateb i ddarn o waith ymchwil nas gwelwyd o'r blaen.

**Uwch** (yr uchod a 2 uned ychwanegol)
**Uned 3 Goblygiadau yn y Byd Real**
**Arholiad ysgrifenedig 2 awr 30 munud : 40% o'r cymhwyster**
**Adran A:** Astudio ymddygiadau. Dewis tri thraethawd strwythuredig, o ddewis o chwech.
**Adran B:** Materion dadleuol mewn seicoleg. Dewis un cwestiwn o ddau sy'n gofyn am archwiliad synoptig o faterion dadleuol seicolegol.
**Uned 4 Dulliau Ymchwil Cymhwysol**
**Arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud: 20% o'r cymhwyster**
**Adran A:** Ymchwiliadau personol Cwestiynau gorfodol yn seiliedig ar weithgareddau ymchwiliol a wnaed cyn yr asesiad.
**Adran B:** Cymhwyso dulliau ymchwil at senarios newydd. Cwestiynau gorfodol yn gofyn am ymateb i ddarnau o ymchwil.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Byddwch yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n ddefnyddiol i chi er mwyn astudio amrywiaeth eang o bynciau yn y brifysgol ac wrth i chi chwilio am waith, gan gynnwys sgiliau dadansoddi meintiol a dadansoddol, a llunio a phrofi rhagdybiaethau. Gan fod y pwnc mor amrywiol, gall Seicoleg hefyd osod sylfaen gadarn ar gyfer y gyrfaoedd canlynol: Gwaith Cymunedol, Lluoedd Arfog, Hysbysebu, Marchnata, Gwasanaeth Sifil, Gwleidyddiaeth, Ymchwil Teledu, Newyddiaduraeth, Gwyddoniaeth Fforensig, Cysylltiadau Cyhoeddus, Adnoddau Dynol, Heddlu, Swyddog Prawf, Troseddeg, Busnes, Gweinyddiaeth, Gofal Cymdeithasol, Meddygaeth, Nyrsio, Y Gyfraith.